WGOS

# Cylchlythyr

Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol Cymru
Wales General Ophthalmic Services

*3ydd argraffiad, Medi 2023*

## Croeso

Bydd Cylchlythyr WGOS yn eich cefnogi i lywio drwy ddiwygio contract optometreg Llywodraeth Cymru. Bydd pob cylchlythyr yn rhoi crynodeb o bwnc penodol gyda dolenni i adnoddau a chymorth perthnasol. Gydag awgrymiadau a chyngor i'ch helpu i baratoi ar gyfer y gwasanaethau optometreg newydd… ***rydym yma i'ch cefnogi chi.***



Bydd rhaglen ddiwygio WGOS yn gweld yr ystod o wasanaethau gofal llygaid a ariennir gan y GIG a ddarperir gan optometryddion, ymarferwyr meddygol offthalmig (OMP) ac optegwyr cyflenwi yng Nghymru yn cynyddu, gyda phob aelod o dîm y practis yn cydweithio i weithio ar frig eu trwydded glinigol berthnasol.

## Bydd cylchlythyr #3 yn canolbwyntio ar: Gweminarau

***Ym mis Medi, bydd gweminarau lansio ar gyfer llwybr IPOS Brys (GOCC 5) ac ar gyfer newidiadau rheoliadol mis Hydref (GOCC 1-3). Dylai contractwyr a pherfformwyr fynd i'r gweminarau neu wylio'r recordiadau fel rhan o'u paratoadau ar gyfer GOCC.***

**O ganol mis Medi 2023,** bydd Byrddau Iechyd yn gallu lansio eu llwybrau IPOS Brys lleol i sefydlu gwasanaethau optometreg rhagnodi annibynnol lle nad oes rhai ar gael, neu i newid eu darpariaeth bresennol i'r llwybr GOCC 5 newydd. Bydd yr Arweinydd Clinigol Cenedlaethol ar gyfer GOCC yn cynnal gweminarau cyn hynny i esbonio'r model gwasanaeth cenedlaethol. Bydd eich bwrdd iechyd yn cysylltu â chi ar ôl i'r rhain ddigwydd gyda manylion am yr hyn y mae'n ei wneud yn lleol, yn enwedig o ran y dyddiad lansio lleol, unrhyw rotâu lleol a newidiadau i ganllawiau lleol ar gyfer atgyfeiriadau offthalmoleg brys, e.e. Adran Damweiniau Llygaid neu RACE.

**O ganol mis Hydref 2023,** bydd gwasanaethau GOS, Archwiliadau Iechyd Llygaid yng Nghymru (EHEW) a Gwasanaeth Golwg Gwan Cymru (GGGC) yn cael eu disodli'n genedlaethol gan GOCC 1-3. Bydd yr Arweinydd Clinigol Cenedlaethol ar gyfer GOCC yn cynnal gweminarau ym mis Medi 2023 i esbonio'r hyn fydd yn wahanol a'r hyn fydd yn aros yr un fath yn y gwasanaethau newydd. Tua'r un amser, bydd AaGIC yn sicrhau bod hyfforddiant gorfodol ar gael a bydd y llawlyfr clinigol ar gyfer GOCC 1-3 yn cael ei lansio.

# Cwestiynau allweddol

? Ydw i'n gontractwr, yn optometrydd neu'n optegydd cyflenwi sy'n gweithio yng Nghymru?

- Os ***'ydw' yw eich ateb, gweithredwch nawr:*** Gwnewch nodyn o'r dyddiadau a chofrestrwch ar gyfer un weminar lansio IPOS Brys ac un weminar lansio GOCC 1-3.
- Os ***'nac ydw'*** yw eich ateb i bob un o'r uchod, ymlaciwch ac arhoswch am y cylchlythyr nesaf.

# Crynodeb

## Beth?

Gweminarau ar gyfer GOCC 1-3 a GOCC 5 IPOS Brys.

## Pryd?

***GOCC 5 IPOS Brys:***

- 7.00-8.00pm, dydd Iau 7 Medi 2023
- 12.00-1.00pm, dydd Gwener 8 Medi 2023

***GOCC 1-3:***

- 7.00-8.30pm, dydd Mercher 13 Medi 2023
- 12.00-1.30pm, dydd Gwener 15 Medi 2023

## Sut?

Cliciwch ar y dolenni ar y chwith:

**neu ymweled;**

https://www.gig.cymru/sa/gofal-llygaid-cymru/gweithwyr-proffesiynol/newyddion-diweddaraf-i-weithwyr-proffesiynol/cylchlythyrau-wgos/

a chliciwch ar y dolenni yn 'Cylchlythyr #3'.

# Cadwch mewn cysylltiad!

I gael diweddariadau yn y dyfodol trwy e-bost, cofrestrwch eich cyfeiriad e-bost yn: https://forms.office.com e/4Kksq7sFpu

**Neu;**

Neu tynnwch lun o'r cod QR isod gyda'ch ffôn clyfar.

Gellir dod o hyd i gylchlythyrau blaenorol yn:
https://www.nhs.wales/sa/eye-care-wales/professionals/latest-news-for-professionals/wgos-newsletters/